**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 4ydd Tachwedd 2020, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, a Ms. J. McAlpine.

## 2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – HYDREF 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1046 | Shire Leasing | 337.33 | System Ffôn Avaya Ch3 ar gyfer 2020/21 |
| 1049 | BT | 372.16 | Rhentu llinell a galwadau |
| 1048 | BT | 105.52 | Rhentu llinell |
| 1047 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17 Awst i 16 Medi |
| 1050 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi Rheoli Medi 2020 |
| 985 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 7 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | Ardrethi Annomestig 20/21 ar gyfer swyddfa Ffordd Wellington– Taliad 7 o 10 |
| 1051 | CThEM | 2,702.39 | Didyniadau PAYE Medi 2020 |
| 1052 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,224.77 | Didyniadau Pensiwn c Ariannu Diffyg Medi 2020 |
| 1053 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,423.76 | Cyflogau Staff Hydref 2020 |
| 990 | CAB | 2,000.00 | Swyddog Tlodi Tanwydd 20/21 Taliad 3 o 4 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£21,265.10** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd | Santander Cyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 22.81 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Deposit | 0.67 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Deposit | 0.67 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Deposit | 0.67 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Deposit | 0.67 |
| Llog a dderbyniwyd | HSBC 7 Day Deposit | 0.67 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **£26.16** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 3. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1045 | Lleng Brydeinig Frenhinol | Torchau ar gyfer Sul y Coffa | 150.00 |
| 1054 | Neopost | Ychwanegiad peiriant ffrancio | 200.00 |
| 1056 | Entertainers 4 U Ltd | Fideo 'Dozy Dave' ar gyfer digwyddiad Nadolig | 50.00 |
| 1057 | JTM signs | Arwyddion digwyddiad Sul y Coffa | 108.00 |
| | | **Cyfanswm** | **£508.00** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 4. CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGORAI AC IS-BWYLLGORAU

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn i'r aelodau gadarnhau cylch gorchwyl pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo strwythur y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau a'r cynllun dirprwyo.*

## 5. GRANT ARIANNU COVID-19 LLYWODRAETH CYMRU

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gwybodaeth gan Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â grant gyfalaf bosibl o £108,000 gan Lywodraeth Cymru, i'w wario ar adfer canol y dref rhag effeithiau pandemig Covid-19.

Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu defnyddio rhan o'r grant i gyflwyno prosiect goleuadau i gyd-daro â'r Nadolig ar gyfer pob un o'r 8 canol dref am gost o £5,000 yr un i godi ysbryd pobl ac annog siopa ar y stryd fawr.

Mae'r Cyngor Sir yn awgrymu bod y £68,000 sy'n weddill yn cael e ddefnyddio gan gynghorau dinas, tref a chymuned ar wariant cyfalaf cymwys pellach yng nghanol y dref, gyda'r cynghorau yn darparu 20% mewn cyllid cyfatebol y byddent yn gallu ei hawlio'n ôl yn ddiweddarach.

Roedd yr aelodau'n cefnogi goleuadau ychwanegol yng nghanol y dref, ond teimlent y gellid gwario'r arian yn well drwy gegfnogi banciau bwyd yn uniongyrchol o ystyried bod y galw wedi cynyddu'n fawr iawn ers i'r feirws daro ar ddechrau'r flwyddyn.

Holodd yr aelodau a fyddai'r goleuadau yn barhaol neu ar gyfer cyfnod y Nadolig yn unig, ac awgrymu y byddai goleuo pont Vale Road yn cael derbyniad cadarnhaol?

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref:*

*(i) yn holi am gyfnod bwriedig y goleuadau a sut y byddai cynghorau dinas, tref a chymuned yn hawlio eu cyllid cyfatebol yn ôl?*

*(ii) yn holi pa arian y mae Cyngor Sir Ddinbych i'w dderbyn gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i Covid-19 a gofyn bod ystyriaeth yn cael ei roi i swm ohono yn cael ei roi i fanciau bwyd ledled y sir.*

## 6. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………